**Pwyllgor Safonau Ymddygiad STD 02-01 (drafft o’r cofnodion)**

**Dyddiad:** 4ydd Ebrill 2001, am 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Bae Caerdydd

Yn Bresennol:

*Aelodau*

David Melding, Canol De Cymru (Cadeirydd)

Cynog Dafis, Canolbarth a Gorllewin Cymru

Janice Gregory, Ogwr

Christine Gwyther, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro

Brian Hancock, Islwyn

Gareth Jones, Conwy

Gwenda Thomas, Castell Nedd

*Swyddogion*

Andrew George, Clerc y Pwyllgor

Jill Thomas, Dirprwy Glerc

David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol

*Eraill*

Richard Penn, Ymgynghorydd Annibynnol y Cynulliad ar Safonau

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau rhagarweiniol y Cadeirydd**

1. Croesawyd pawb i’r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Karen Sinclair ac

Eleanor Burnham (a oedd wedi cymryd lle Christine Humphreys). Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at Mrs Humphreys i ddiolch iddi am ei chyfraniad i'r Pwyllgor. Cadarnhaodd na chaiff dirprwyon fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau.

2. Cadarnhaodd y Pwyllgor bod cofnodion y cyfarfod diwethaf (STD 01-01 min) yn gofnod cywir.

**Eitem 2: Diweddariad chwarterol ac arolwg o'r camau a gymerwyd yn deillio o STD-01-01**

Papur STD-02-01 (1)

3. Nodwyd papur yr Ysgrifenyddiaeth gan y Pwyllgor.

4. Cadarnhaodd y Cadeirydd iddo gynnal trafodaeth anffurfiol gyda'r Dirprwy Lywydd yngl•n ag arweiniad ar y defnydd a wneir o Adnoddau'r Cynulliad. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn trafod hyn gydag Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y T•.

**Gweithred:** Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyfarfod ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf am Gofrestr buddiannau'r Aelodau**

Eitem ar lafar

5. Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf am Gofrestr Buddiannau'r Aelodau ar lafar gan Glerc y Pwyllgor. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd nad oedd hi'n bosibl ar hyn o bryd nodi nifer yr 'ymweliadau' unigol a gafwyd ar adran Gofrestr Gwefan y Cynulliad.

**Eitem 4: Blaenraglen Waith y Pwyllgor – Diweddariad ar Brotocol gyda'r Heddlu**

Papur STD 02-01 (2)

6. Nodwyd papur yr Ysgrifenyddiaeth gan y Pwyllgor a chytunwyd y dylid cyflwyno adroddiad ychwanegol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Gweithred:** Yr Ysgrifenyddiaeth i baratoi adroddiad ar gynnydd Protocol yr Heddlu ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Eitem 5: Buddiannau Anuniongyrchol**

Papurau STD-02-01 (3, 4 , a 5)

7. Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Cadeirydd trwy gyfeirio Aelodau at y cynnydd a wnaed yn y

Cyfarfod ar 31 Ionawr. Gwahoddodd David Lambert i gyflwyno Papurau STD-02-01 (4), a gyflwynodd adolygiad drafft i Reol Sefydlog 4; a STD-02-01 (5) a oedd yn cynnwys arweiniad adolygedig ar Ddatgan a Chofrestru Buddiannau Aelodau.

Materion yn Codi

***Diffiniadau o Blentyn a Phartner Dibynnol***

8. Cadarnhaodd David Lambert fod y diffiniad o 'bartner' yn STD-02-01 (4) wedi deillio o ddarpariaethau a sefydlwyd gan Senedd yr Alban; a'r 'dibynnol' wedi'i gymryd o Reoliadau'r NHS ( Pensiynau) 1995. Cydnabu'r Pwyllgor bod angen diffiniad cadarn o 'blentyn dibynnol' neu 'bartner' oherwydd y cosbau troseddol a oedd yn gysylltiedig â chofrestru a datgan. Fodd bynnag, roedd peth pryder o ran a oedd y diffiniadau yn STD-02-01 (4) yn ddigon clir.

9. Diffiniad o 'blentyn dibynnol' – Codwyd nifer o bryderon gan Aelodau yngl•n â'r diffiniad hwn. Ystyriwyd ei bod yn amhriodol fod y diffiniad yn cyfeirio at blant a oedd yn byw gydag Aelodau yn unig. Gallai plant mewn amgylchiadau eraill e.e. o deuluoedd wedi ysgaru, barhau i fod yn ddibynnol ar Aelod er eu bod yn byw ar wahân iddynt. Dylid rhoi sylw pellach i'r oedran y gellir ystyried nad yw plant bellach yn ddibynnol. Wrth ailystyried y diffiniad, dylai'r Pwyllgor ystyried y meini prawf a ddefnyddir gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at ddibenion Budd-dâl Plant.

10. Diffiniad o 'bartner' – Ystyriodd y Pwyllgor y diffiniad drafft yn STD-02-01 (p4) a chynhwysiant cyplau oedd yn cyd-fyw "fel petaent yn •r a gwraig". Yn dilyn hyn, trafodwyd a fyddai (neu a ddylai'r) diffiniad gynnwys perthnasau nad ydynt yn rhywiol, ac a ddylid rhoi mwy o bwyslais ar oblygiadau ariannol a rennir yn y cartref. Cytunwyd y dylai unrhyw ddiffiniad o 'bartner' awgrymu perthynas sefydlog a chadarn.

**Cofrestru a Datgan Buddiannau Partner neu Blant Dibynnol**

11. Nododd Aelodau y cynnig i ymestyn y gofynion i gofrestru a datgan buddiannau partner neu blentyn dibynnol i bob un o gategorïau buddiant cofrestredig perthnasol yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 4 ac thrwy hyn waredu'r angen i gofrestru buddiannau 'anuniongyrchol' ar wahân. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd David Lambert y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Sefydlog yn golygu bod angen i Aelodau gofrestru a datgan cyflogaeth eu partner ac unrhyw blant dibynnol.

12. Er i'r Pwyllgor nodi y byddai'r gofynion ychwanegol i gofrestru a datgan buddiannau yn symlach ac yn llawer mwy cadarn, byddai hefyd yn fwy o faich ar yr Aelodau a gallai effeithio'n sylweddol ar weithrediadau'r Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau oherwydd yr angen hwn i ddatgan y buddiannau. Gellid ystyried defnyddio geiriau 'cyffredinol' i symleiddio'r weithdrefn.

***Pleidleisio***

13. Dywedodd David Lambert y byddai'r angen i Aelodau gofrestru a datgan buddiannau partneriaid a phlant dibynnol hefyd yn cael effaith ar y mater o ran a allai'r Aelodau bleidleisio yng ngweithrediadau'r Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor y byddai angen i adolygiad yr arweiniad arfaethedig fod yn glir. Dywedodd y Cadeirydd y byddai angen ystyried y mater hwn yn fanylach yn y cyfarfod nesaf.

**Gweithred:**

- David Lambert i goethi'r diffiniadau o bartner a phlant dibynnol yng ngoleuni sylwadau'r Pwyllgor.
- Yr Ysgrifenyddiaeth i baratoi papur drafft gan y Pwyllgor Safonau i'r Pwyllgor Busnes yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Sefydlog a'u heffaith posibl ar Aelodau, gan gynnwys pleidleisio. Byddai angen ymgynghori â Phanel y Cadeiryddion hefyd.

**Torrodd y Pwyllgor am 11 o'r gloch am 10 munud. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Richard Penn cyn iddo adael y cyfarfod.**

**Eitem 6:Aelodau sy'n perthyn i'r Seiri Rhyddion**

Papurau STD-02-01 (6&7); Memorandwm gan y Seiri Rhyddion STD-02-01 (8)

14. Cyflwynwyd yr eitem gan y Cadeirydd a chroesawodd Mr Bevan a Mr Hamill i'r cyfarfod. Gwahoddodd David Lambert i gyflwyno'i bapur STD-02-01 (7) a ddarparodd wybodaeth gefndirol am ofynion y Cynulliad i Aelodau gofrestru eu haelodaeth â'r Seiri Rhyddion yn y Gofrestr Buddiannau statudol.

15. Yna rhoddodd Mr Hamill gyflwyniad i'r Pwyllgor ar hanes, polisïau ac egwyddorion y Seiri Rhyddion, gan gyfeirio at y Memorandwm a ddosbarthwyd i'r Aelodau. Pwysleisiodd mai eu prif bryder oedd mai'r Seiri Rhyddion oedd yr unig sefydliad brawdorol yr oedd yn rhaid datgan aelodaeth â hwy ar y Gofrestr.

16. Ymysg y pwyntiau a wnaethpwyd yn y drafodaeth a ddilynodd roedd:

- nodwyd fod y Seiri Rhyddion o'r farn fod gan y cyhoedd ragdybiaethau anghywir am natur a phwrpas eu sefydliad. Roedd hyn wedi codi'n rhannol o ganlyniad i'r "blynyddoedd distaw" rhwng y 1930au a'r 1970au pan fu'r Seiri Rhyddion yn osgoi cyhoeddusrwydd.
- Roedd y Seiri Rhyddion yn credu bod datgan aelodaeth yn fater i'r unigolyn. Nid oedd unrhyw restr ganolog o Aelodau ac ni fyddai gan Gyfrinfeydd unigol gofnodion cywir am eu holl aelodau o reidrwydd.
- dylai'r Pwyllgor ymchwilio i weld a oes yna unrhyw sefydliadau eraill sy'n dilyn yr un polisi â'r Seiri Rhyddion o ran peidio â datgan eu haelodaeth yn gyhoeddus ac os oes, dylai ystyried pa un a ddylai Aelodau ddatgan y rhain hefyd, ac archwilio i'r modd y gallai hyn effeithio ar Gofrestr

Buddiannau'r Aelodau.

- ystyriwyd yr ymarfer ymgynghorol cychwynnol a gynhaliwyd gan Grp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol (NAAG) a argymellodd yn ddiweddarach y cofrestru. Roedd y Pwyllgor ar ddeall na chafwyd unrhyw wrthwynebiad gan y Seiri Rhyddion adeg yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, cadarnhaodd Mr Bevan bod eu Prif Feistr Rhanbarthol, Arglwydd Abertawe, wedi ysgrifennu at NAAG ar ran y Seiri Rhyddion yng Nghymru. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifenyddiaeth am gopi o'r llythyr hwn.

17. Atgoffodd David Lambert yr aelodau fod y Cynulliad yn aros am benderfyniad gan y Llys Hawliau Dynol yn Strasbourg ar achos a oedd yn cael ei glywed o dan y Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ystyried y mater eto yn ei gyfarfod nesaf.

**Gweithred:** Yr Ysgrifenyddiaeth i gynhyrchu papur ar y ffordd ymlaen ar gyfer y cyfarfod nesaf a dosbarthu copïau o lythyr Arglwydd Abertawe yn y cyfamser.

**Eitem 7: Unrhyw Fater Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

18. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnal y cyfarfod nesaf ddiwedd mis Mai neu yn mis Mehefin.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau**